# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Awdurdod Lleol | Sefydliad/Mudiad | Crynodeb o'r hyn y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Abertawe | Canolfan Gymunedol Townhill | Bydd Canolfan Gymunedol Townhill yn Abertawe yn defnyddio'r grant i wella'r cyfleuster i grwpiau defnyddwyr a'r gymuned ehangach, er mwyn caniatáu iddynt fynd i'r afael â thlodi ac unigrwydd yn y gymuned leol. Bydd y grant hwn ar gyfer £3,875 yn ariannu cyfarpar cegin, popty trydanol, costau paentio, gorchuddion dros reiddiaduron, carpedi, matiau neuadd chwaraeon, leino, lluniaeth a chostau marchnata. |
| Abertawe | *Crisis UK* | Bydd *Crisis UK* yn ymgysylltu gyda phobl ddigartref sydd â phrofiad o lygad y ffynnon gan gynnig hyfforddiant iddynt weithredu fel gwirfoddolwyr er mwyn cynnig cefnogaeth i gyfoedion digartref a allai elwa o hyn. Bydd gweithiwr seicoleg proffesiynol yn cael ei gyflogi hefyd er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau iechyd meddwl cymhleth y gallai rhai o'r buddiolwyr fod yn eu profi. Diben y prosiect yw gweithio gyda buddiolwyr ar draws Castell-nedd, Abertawe a Phort Talbot, er mwyn cynnig cefnogaeth un i un i sicrhau tŷ ac i drafod unrhyw anawsterau iechyd meddwl sy'n amlwg. Fe fyddant yn gweithio'n agos gyda *Skylight South Wales* i gyflwyno'r prosiect hwn. Bydd y grant o £470,981, dros bedair blynedd, yn darparu ar gyfer cyflogau, treuliau, marchnata, gwerthuso, llety a chostau rhedeg cyffredinol eraill. |
| Abertawe | Eglwys y Bedyddwyr Gendros | Bydd Eglwys y Bedyddwyr Gendros yn Abertawe yn defnyddio'r grant i redeg canolfan deithiol i ieuenctid, a'r bwriad yw estyn allan at bobl ifanc yn eu cymdogaethau gan gynnig cymorth mentora i'r sawl sy'n profi arwahanrwydd, unigrwydd ac ymddygiadau troseddol. Bydd y grant hwn ar gyfer £9,880 yn ariannu hyfforddiant i staff, gwirfoddolwyr, hyfforddiant, ffioedd gweithwyr datblygu, adnoddau a deunyddiau hyfforddi, lluniaeth, costau staff ar gyfer Rheolwr Gwaith Allanol i Ieuenctid, taflenni, a phosteri. |
| Blaenau Gwent | *Chloe's Community Cupboard* | Bydd *Chloe's Community Cupboard* yn Nhredegar yn sefydlu man cymunedol dielw yn cynnig dillad wedi'u hailgylchu, deunyddiau ymolchi, teganau ac eitemau hanfodol eraill i |

| Awdurdod Lleol | Sefydliad/Mudiad | Crynodeb o'r hyn y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| | | deuluoedd ar incymau isel. Bydd y grant hwn o £8,780 yn ariannu cynhwysyddion storio plastig, costau cyfleustodau a rhedeg, peiriant golchi a sychwr, hyrwyddo a marchnata, arwyddion, treuliau gwirfoddolwyr, a dillad arbenigol. |
| Bro Morgannwg | *The Intersensory Club* | Bydd y prosiect yn cynyddu nifer y bobl sydd ag anableddau difrifol mewn cadeiriau olwyn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau seiclo a hwylio yn sylweddol yn ardal y Bari. Bydd cyfarpar newydd, gan gynnwys cwch pŵer newydd, ac oriau sesiynol ychwanegol yn cynnig mwy o gyfleoedd i ymgysylltu. Bydd y grant £85,000, dros bum mlynedd, yn ariannu cwch newydd, 1 Rheolwr Sesiynol rhan amser, treuliau, monitro/gwerthuso ac yswiriant. |
| Caerdydd | *BAWSO Ltd* | Bydd *BAWSO Ltd* yng Nghaerdydd yn defnyddio'r grant i gyflwyno cyfres o weithdai byw'n iach ar gyfer merched Du, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig (BAME) sydd wedi profi trawma. Bydd y grant hwn ar gyfer £9,474 yn ariannu staff, teithio, deunyddiau ysgrifennu, lluniaeth, treuliau gwirfoddolwyr, costau cyfleustodau cymdeithion y prosiect, darparu gofal plant, taith i Sain Ffagan a ffioedd campfa. |
| Caerdydd | *Go Kids Go!* | Bydd *Go Kids Go!* (Cymdeithas i Blant mewn Cadeiriau Olwyn) yn cyflwyno hyfforddiant sgiliau cadair olwyn i blant sydd ag anableddau corfforol yng Nghaerdydd. Bydd y grant hwn o £2,200 yn ariannu costau staff, cludiant a llety, offer, llogi lleoliadau, cyhoeddusrwydd a chostau gweinyddol. |
| Caerdydd | *Llandaff 50+* | Bydd y prosiect yn estyn ac adnewyddu adeilad segur yng nghanol Llandaf, Caerdydd. Fe fydd yn darparu man cyfarfod i bobl hŷn gan gynnig sbectrwm o weithgareddau, gan gynnwys TG, crefftau, canolfan dementia gyfeillgar ynghyd â chyfleoedd gwirfoddoli i'r gymuned ehangach. Bydd y prosiect yn adeiladu ar hanes yr adeilad trwy gynnig ystafell dreftadaeth i gyfranogwyr i rannu storïau am Landaf ac i gymdeithasu. Bydd y grant o £5,159, dros flwyddyn, yn ariannu ffioedd proffesiynol i ddatblygu costau a chynlluniau'r prosiect. |

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Awdurdod Lleol | Sefydliad/Mudiad | Crynodeb o'r hyn y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Caerdydd | *The City Hospice Trust Limited* | Bydd *City Hospice Trust Limited* yng Nghaerdydd yn cludo cleifion ag afiechydon terfynol o'r cartref ar gyfer gweithgareddau meddygol, lles a chymdeithasol, gan gynnig seibiant i deuluoedd a gofalwyr. Bydd y grant hwn ar gyfer £10,000 yn ariannu bws mini. |
| Caerdydd | *The S.A.F.E. Foundation* | Bydd y prosiect yn adeiladu ar waith cyfredol yr ymgeisydd trwy gyflwyno rhaglen ddinasyddiaeth fydol a fydd yn adeiladu ar sgiliau'r bobl ifanc a chynyddu'r modd y maent yn cymryd rhan yn eu cymunedau. Bydd y prosiect o fudd i 600 o bobl ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed a fydd yn defnyddio technolegau newydd i ddatblygu a darparu cyfleoedd i symud ymlaen tuag at hyfforddiant a phrofiad gwaith pellach. Bydd y grant £290,644, dros bedair blynedd, yn ariannu cyflogau (Swyddog Hyfforddi a Chydlynydd Gwirfoddolwyr), recriwtio, hyfforddiant, monitro a gwerthuso, offer, teithio ac argostau. |
| Caerdydd | Ymddiriedolaeth Theatr Dawns Cymru Cyfyngedig | Bydd Ymddiriedolaeth Theatr Dawns Cymru Cyfyngedig yng Nghaerdydd yn defnyddio'r grant i gynnal rhaglen ddawns i bobl sy'n adfer o strôc, er mwyn helpu gwella eu lles corfforol a meddyliol. Bydd y grant hwn ar gyfer £9,948 yn ariannu llogi lleoliad, ffioedd tiwtoriaid, a chostau hysbysebu. |
| Casnewydd | *New Pathways Family Friendly Therapeutic Centre of Excellence* | Bydd y prosiect yn adeiladu ar brosiect llwyddiannus yr ymgeisydd sef SURE dros Iechyd Meddwl a ariannwyd gan y Loteri. Fe fydd yn cyflwyno ei waith craidd sef dysgu iechyd meddwl sylfaenol i bobl i ddynodi a chefnogi eu hunain ac eraill sydd ag anawsterau iechyd meddwl, a'i hyfforddiant cefnogi a gwaith ymyrraeth ar hunanladdiad. Bydd yr elfen newydd yn cynnwys fersiwn ieuenctid o SURE sydd wedi'i deilwra i weddu i'w hanghenion, datblygu pecyn cymorth iechyd meddwl a grwpiau cefnogi iechyd meddwl a gynhelir gan bobl â phrofiadau o anawsterau iechyd meddwl ar eu cyfer. Bydd y grant o £499,852, dros dair blynedd, yn ariannu Hyfforddwr/Cydlynydd Prosiect llawn amser, Swyddog Prosiect llawn amser, Cydlynydd Cymunedol/ Hwylusydd Grŵp llawn amser a Hyfforddwr/ Hwylusydd |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Awdurdod Lleol | Sefydliad/Mudiad | Crynodeb o'r hyn y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| | | Gweithdai rhai amser, recriwtio, hyfforddiant, marchnata, monitro a gwerthuso, llawlyfrau hyfforddiant, treuliau a digwyddiadau ymgysylltu gyda chleientiaid. |
| Ceredigion | Canolfan Deuluol Llambedr Pont Steffan | Bydd y prosiect yn gwella ac yn adeiladu ar wasanaeth craidd y ganolfan sef grwpiau galw heibio i fabanod a phlant ifanc gan dargedu materion penodol a ddynodwyd gan deuluoedd. Bydd rhieni yn cael eu cefnogi i ddeall y prif negeseuon am ddatblygiad plant yn well a defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi eu plant. Bydd sesiynau'n cael eu darparu i gynyddu sgiliau iaith a lleferydd trwy ymwybyddiaeth o chwarae, cyflwyno bwyd solet a'r defnydd o ddymi. Bydd y clwb cinio yn cael ei ddatblygu i helpu rhieni i feithrin dealltwriaeth o sut y gall yr hyn y byddant yn ei fwyta gael effaith ar eu hiechyd, coginio yn ôl cyllideb, cynllunio prydau bwyd, storio bwyd a sicrhau fod bwyd yn ddiogel i'w fwyta. Y trydydd gwelliant i wasanaethau craidd y Ganolfan yw cynnig cefnogaeth ychwanegol i rieni ifanc i gynyddu rhyngweithio cymdeithasol a hyder trwy ddyddiau meithrin timau mewn partneriaeth â'r ganolfan gweithgareddau awyr agored yn Denmark Farm. Bydd y grant, dros dair blynedd, yn ariannu cyflogau, hyfforddiant a threuliau, llety a chyfleustodau, marchnata, monitro a gwerthuso, ffioedd proffesiynol, gweithdai ac adnoddau. |
| Ceredigion | Merched y Wawr Cangen Bronant a'r Cylch | Bydd Merched y Wawr Cangen Bronant a'r Cylch yng Ngheredigion yn defnyddio'r grant i gael cyfarpar yn eu neuadd bentref leol, i ddiwallu anghenion amrywiol grwpiau defnyddwyr cymunedol. Bydd y grant hwn ar gyfer £9,067 yn ariannu taflunydd, meddalwedd, argraffydd, costau hyfforddi TG, storio, costau marchnata, yswiriant, a mainc. |
| Ceredigion | Prosiect Addysgu Lighthouse | Bydd y Prosiect Addysgu Lighthouse yng Ngheredigion yn defnyddio'r grant i sefydlu clwb gweithgareddau i blant a addysgir yn y cartref a leolir mewn lleoliadau gwledig, er |

| Awdurdod Lleol | Sefydliad/Mudiad | Crynodeb o'r hyn y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| | | mwyn helpu i oresgyn teimladau o arwahanrwydd cymdeithasol. Bydd y grant ar gyfer £10,000 yn ariannu costau staff, llogi lleoliad, yswiriant, a deunyddiau. |
| Conwy | *Abergele Community Action Ltd* | Bydd *Abergele Community Action Ltd* yn defnyddio'r grant i sefydlu Sied Ieuenctid i bobl ifanc 11 – 25 mlwydd oed a fydd yn cynnig lle diogel i bobl ifanc gyflawni eu potensial a dysgu sgiliau newydd. Bydd y grant hwn am £9,996 yn ariannu gwaith trydanol a phlwmio. |
| Conwy | Arddangosfa Bryn y Maen | Bydd Arddangosfa Bryn y Maen ym Mae Colwyn yn defnyddio'r grant i drefnu sioe o hen gerbydau a chrefftau gwledig i ddod â'r gymuned ynghyd. Bydd y grant hwn ar gyfer £1,500 yn ariannu llogi toiledau, pebyll, a system danoi, costau Ambiwlans Sant Ioan, yswiriant, argraffu a hyrwyddo. |
| Gwynedd | *Wales Outdoor Mums and Dads* | Bydd *Wales Outdoor Mums and Dads* yng Ngwynedd yn defnyddio'r grant i ddatblygu eu grŵp ar gyfer rhieni, a'r nod fydd eu hannog i gymdeithasu wrth fod yn weithgar. Bydd y grant hwn ar gyfer £9,480 yn ariannu costau teithio a gwersylla, deunyddiau marchnata a hyrwyddo, offer crefft byw yn y gwyllt, ffioedd cyrsiau, offer campau dŵr, yswiriant, deunyddiau ysgrifennu, costau datblygu partneriaeth, cynhaliaeth, a chostau cyfathrebu. |
| Pen-y-bont ar Ogwr | *Bridge Mentoring Plus Scheme* | Bydd *Bridge Mentoring Plus Scheme* ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio'r grant i ailddechrau eu rhaglen mentora i bobl ifanc a phlant yn y gymuned leol sy'n profi gofid emosiynol neu brofiadau andwyol. Bydd y grant hwn ar gyfer £9,612 yn ariannu cydlynydd cefnogi ieuenctid, gweithiwr cefnogi ieuenctid, costau gweithgareddau'r prosiect, ymweliadau addysgol, treuliau gwirfoddolwyr, adnoddau a chyfraniadau tuag at logi ystafelloedd. |
| Powys | *Bracken Trust Limited* | Bydd *Bracken Trust Limited*, sy'n cyflwyno gwasanaethau i'r sawl sy'n dioddef neu'n gwella o ganser, yn ehangu ar eu gwasanaethau yn eu lleoliad yn Llandrindod a datblygu gwasanaethau cymorth cymunedol a lles mewn canolfannau yn Nhref-y-clawdd a Llanidloes. Bydd hyn yn cynnwys 'gwasanaeth cymorth |

| Awdurdod Lleol | Sefydliad/Mudiad | Crynodeb o’r hyn y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| | | cartref’ cadarn a dynodedig a system cefnogi ffonau 5 diwrnod yr wythnos. Bydd y strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer gwirfoddolwyr yn cael ei datblygu a gwirfoddolwyr ychwanegol yn cael eu recriwtio i helpu yn y canolfannau, a bydd technoleg gwybodaeth yn cael ei gwella, gan ei gwneud yn haws i’w defnyddio gan ddefnyddwyr, yn rhyngweithiol ac yn ddwyieithog. Bydd y grant, £499,964 dros bum mlynedd, yn ariannu cyflogau tair swydd lawn amser, hyfforddiant, costau teithio, lleoliadau a chyfleustodau, marchnata a chyfathrebu, monitro a gwerthuso a chostau diswyddiadau. |
| Rhondda Cynon Taf | *Valleys Kids* | Bydd y prosiect yn gweithio gyda theuluoedd mewn tlodi neu’n cael trafferth i ymdopi yn dilyn mesurau llymder yn Rhondda Cynon Taf. Y sawl fydd yn elwa yw teuluoedd ac unigolion sy’n dlawd, wedi’u hynysu’n gymdeithasol, yn unig, yn profi diffyg hyder, gyda hunan-barch isel, gyda nifer yn profi argyfyngau oherwydd incwm isel. Bydd y grant hwn o £498,833 yn cael ei ddefnyddio i weithio ag ystod eang o fudiadau a darparwyr gwasanaeth lleol i gyflwyno’r prosiect ac i atgyfeirio, ac fe fydd 300 o unigolion yn elwa. |
| Sir Benfro | Amgueddfa Treftadaeth a Bywyd y Môr Aberdaugleddau | Bydd Amgueddfa Treftadaeth a Bywyd y Môr Aberdaugleddau yn Sir Benfro yn defnyddio’r grant i osod lifft llwyfan i’w hadeilad er mwyn gwella mynediad i ddefnyddwyr ag anawsterau symudedd. Bydd y grant hwn ar gyfer £8,000 yn ariannu lifft llwyfan, costau gosod, arwyddion Braille. |
| Sir Benfro | Cymdeithas Gofalwyr Maeth Sir Benfro (PFCA) | Bydd Cymdeithas Gofalwyr Maeth Sir Benfro (PFCA) yn defnyddio’r grant i gynnig cefnogaeth i blant mewn gofal, trwy gynnig cyfleoedd iddynt feithrin eu hyder a chymdeithasu. Bydd y grant hwn ar gyfer £6,615 yn ariannu marchogaeth, dosbarthiadau iechyd, gweithdai drama, cludiant, ac artist. |
| Sir Benfro | *Esteam The Environmental Sustainability Team Ltd.* | Bydd *Esteam - The Environmental Sustainability Team Ltd* yn Sir Benfro yn adnewyddu eu hystafell gwaith coed, ac yn helpu ag anableddau dysgu ac anawsterau iechyd meddwl i ennill sgiliau a chymwysterau. |

| Awdurdod Lleol | Sefydliad/Mudiad | Crynodeb o'r hyn y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| | | Bydd y grant hwn ar gyfer £9,400 yn ariannu peiriannau gwaith coed, gwaith adnewyddu a deunyddiau adeiladu. |
| Sir Benfro | *Pembrokeshire Action to Combat Hardship (Patch)* | Bydd *Pembrokeshire Action to Combat Hardship (Patch)* yn defnyddio'r grant i brynu fan newydd yn lle un presennol, a ddefnyddir ganddynt i ddosbarthu bwyd ac eitemau sylfaenol i'r sawl sydd mewn angen ariannol ar draws yr ardal. Bydd y grant hwn ar gyfer £10,000 yn ariannu fan, treth ac yswiriant, a chost dosbarthu. |
| Sir Benfro | *Pembrokeshire Online CIC* | Bydd *Pembrokeshire Online CIC* yn defnyddio'r grant i ddatblygu eu cylchgrawn ar-lein am ddim i gynnig cyfleoedd i bobl ennill profiad a gwella eu rhagolygon am gyflogaeth, gan arwain at fwy o ymgysylltu cymunedol a dinasyddiaeth weithgar. Bydd y grant hwn am £9,500 yn ariannu costau teithio gwirfoddolwyr, golygu a datblygu gwefan, meddalwedd ac adnoddau, gliniadur *notebook,* costau rhyngrwyd a ffôn ychwanegol, costau lleoliadau ar gyfer digwyddiadau, ac amser ymchwil a chasglu data. |
| Sir Benfro | Sied Dynion Bethesda | Bydd Sied Dynion Bethesda yn Sir Benfro yn defnyddio'r grant i gefnogi dynion yn eu hardal i ddatblygu sgiliau ac i wella eu hiechyd meddwl gan helpu i ddatblygu eu cymuned. Bydd y grant hwn am £9,650 yn ariannu sied gan gynnwys dosbarthu, paratoi safle, offer a chyfarpar. |
| Sir Benfro | *Solva Care* | Bydd *Solva Care* yn gwella ac yn ehangu ar wasanaethau presennol trwy gynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chymunedol megis te prynhawn a sesiynau grŵp, ynghyd â gweithgaredd grŵp ysgogol i gynnwys teithiau cerdded a sgyrsiau, cerddoriaeth a symud a gweithgareddau rhwng y cenedlaethau. Bydd cyfleoedd dysgu gydol oes yn cael eu cyflwyno yn y gymuned, gan edrych ar gymorth cyntaf brys i bob oedran, a sesiynau therapi celf, datblygu sgiliau, rhannu sgiliau a rhannu profiadau, Yn ychwanegol at hyn, fe fydd cyfleoedd ystyrlon i wirfoddoli yn cael eu creu gyda hyfforddiant sydd wedi'i achredu ar gael. Bydd y grant, £281 783 bum |

| Awdurdod Lleol | Sefydliad/Mudiad | Crynodeb o'r hyn y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| | | mlynedd, yn ariannu cyflogau, costau recriwtio, hyfforddi a theithio, marchnata a chyfathrebu, ffioedd proffesiynol a chyfreithiol, costau rheoli, llogi lleoliad a chyflwyno gweithgareddau. |
| Sir Ddinbych | Sied Dynion Rhyl | Bydd Sied Dynion Rhyl yn dod â phobl ifanc a phobl hŷn ynghyd yn eu cymuned i rannu sgiliau, i gymdeithasu a gostwng ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd y grant hwn am £10,000 yn ariannu yswiriant, costau gweithiwr ieuenctid a chymunedol sesiynol, llogi ystafell, cyhoeddusrwydd, offer TG, lluniaeth ac archwiliadau DBS. |
| Sir Ddinbych | Siop Gynghori ar Fudd-daliadau | Bydd y prosiect yn darparu Gwasanaeth Cynrychiolaeth mewn Apeliadau yng Nghonwy i gefnogi pobl gyda thribiwnlysoedd budd-daliadau lles, gan gynnig hyder iddynt fynd ymlaen gyda'u hapêl a gwella eu sefyllfa ariannol. Bydd y grant o £90, 976 dros dair blynedd yn talu am weithiwr apêl Conwy ar gyfer 30 awr yr wythnos, costau recriwtio, costau teithio a marchnata, a chostau gweinyddu a chefnogi rheolaeth. |
| Sir Gaerfyrddin | Canolfan Deuluol De Cefncaeau (Tŷ Enfys) | Bydd Canolfan Deuluol De Cefncaeau (Tŷ Enfys) yn defnyddio'r grant i gynnal amrywiaeth o weithgareddau, er mwyn atgyfnerthu perthnasau rhwng y cenedlaethau o fewn eu cymuned. Bydd y grant hwn am £10,000 yn ariannu costau cydlynydd, cyfleustodau, ffioedd proffesiynol, iechyd a diogelwch a chostau postio. |
| Sir Gaerfyrddin | *Crossroads Sir Gar Cyfyngedig* | Bydd *Crossroads Sir Gar Cyfyngedig* yn Sir Gaerfyrddin yn defnyddio'r grant i roi cyfle i ofalwyr ifanc i oresgyn materion megis iechyd meddwl gwael, unigrwydd a diffyg hyder trwy fynd â hwy ar gyfres o deithiau seibiant. Bydd y grant ar gyfer £10,000 yn ariannu cludiant, tocynnau a ffioedd mynediad. |
| Sir Gaerfyrddin | *In2Action - Cymru* | Bydd *In2Action - Cymru* yn Sir Gaerfyrddin yn defnyddio'r grant i gynnig cyfle i wirfoddolwyr feithrin eu hyder a hunan-barch trwy eu helpu i ddatblygu a chefnogi grŵp a fydd yn mynd i'r afael â diffyg clybiau lleol sy'n diwallu anghenion plant yn yr ardal. Bydd y grant ar gyfer £9,922 yn ariannu costau gweithiwr |

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol

| Awdurdod Lleol | Sefydliad/Mudiad | Crynodeb o’r hyn y bydd y grant yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| | | sesiynol, llogi ystafell, treuliau gwirfoddolwyr, lluniaeth, deunyddiau ysgrifennu a chostau marchnata. |
| Sir Gaerfyrddin | *Junction 49* | Bydd *Junction 49* yn Sir Gaerfyrddin yn defnyddio’r grant i gynnig hyfforddiant a chyfleoedd i wirfoddoli er mwyn uwchsgilio’r gymuned gyfan. Bydd y grant hwn am £9,050 yn ariannu gwefan, yswiriant, treuliau gwirfoddolwyr, llogi ystafell, gliniaduron, deunyddiau ysgrifennu, hyfforddiant ac offer. |
| Sir y Fflint | *Homegrown@Park in the Past* | Bydd *Homegrown@Park in the Past* yn Sir y Fflint yn defnyddio’r grant i adeiladu a chynnal a chadw ugain i dri deg o blotiau tyfu llysiau eich hunan er defnydd y gymuned leol i annog cydlyniant cymunedol a bwyta’n iach. Bydd y grant hwn ar gyfer £6,400 yn ariannu pren, offer garddio, sied, manion, compost, llwybrau a ffi trwyddedu. |
| Ynys Môn | Grŵp Coetir Cymunedol Llyn Parc Mawr Cyf | Bydd y prosiect yn gwella’r coetir a chyfleusterau cymunedol trwy ddatblygu llwybr cylchol o amgylch rhan o’r llyn yng nghanol y coetir. Bydd hyn yn cynnig ystafell ddosbarth/lleoliad newydd yn yr awyr agored, i gyflwyno gweithgareddau ysgol goedwigaeth, hyfforddiant a rhaglen gwirfoddoli, gweithgareddau a digwyddiadau gan gynnwys rhaglen les. Bydd prosiect hanes cymdeithasol yn dathlu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal, gan helpu i ailgysylltu’r gymuned gyda’r coetir ac fe fydd yna gyfleoedd newydd am fenter. Bydd y grant o £249, 734, dros bum mlynedd, yn talu am gyflogau a chostau cysylltiedig ar gyfer tair swydd ran amser (Swyddog Amgylchedd Coetiroedd, Swyddog Addysg, Gweinyddydd). |
| Ynys Môn | *Youth Pod Ieuenctid* | Bydd *Youth Pod Ieuenctid* ar Ynys Môn yn defnyddio’r grant i gyflwyno hyfforddiant galwedigaethol i bobl ifanc sy’n mynychu eu lleoliad er mwyn caniatáu iddynt ddechrau ar fenter busnes bychan, a fydd yn helpu i wella eu rhagolygon am gyflogaeth. Bydd y grant hwn ar gyfer £10,000 yn ariannu hyfforddiant galwedigaethol, topiau hwdi ac offer. |